# Newyddion Datgeliad y DBS – Hydref 2014

Helo a chroeso i rifyn mis Hydref o Newyddion Datgeliad y DBS.

Rydym wir wedi gwerthfawrogi eich amynedd yn ystod y misoedd diwethaf wrth i ni ddelio â niferoedd cynyddol o geisiadau a galwadau.

Mae wedi bod yn gyfnod heriol i bawb, ond rydych yn ein helpu trwy un i'n cyfnodau prysuraf erioed trwy ddefnyddio ein gwefan yn amlach i ateb eich cwestiynau. Diolch. Mae hyn yn ysgafnhau'r baich rhyw fymryn ar ein canolfan alwadau ac yn helpu ein gweithredwyr ffôn i flaenoriaethu galwadau ar gyfer y rhai sydd angen cymorth penodol gyda cheisiadau.

Byddai'n cymorth mawr i ni pe gallech ddal i ddefnyddio'r wefan fel eich cyrchfan gyntaf – bydd yn gyflymach i chi os gallwch chi weld beth ydych angen heb orfod cysylltu â ni. Mae'r erthygl 'Gwnewch i'n gwasanaeth weithio i chi' yn rhoi rhywfaint o'r dolenni gwe mwyaf poblogaidd i'ch helpu gyda hyn.

Hefyd mis yma, mae'n amser cyffrous iawn yn y DBS wrth i ni ddechrau cael blas gwirioneddol o sut fydd ein systemau digidol newydd yn ein helpu i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Gallwch ddarllen mwy am ein cynlluniau yn yr erthygl 'Ein taith tuag at fod yn Ganolfan Rhagoriaeth'.

Rydym hefyd yn eich atgoffa am y tro olaf fod ein hymarfer adnewyddu ffurflenni yn dod i ben ar ddiwedd Hydref. Y dyddiad newydd i'w nodi yw **1 Rhagfyr 2014** – o'r dyddiad hwn, ni fyddwn bellach yn derbyn ceisiadau yn defnyddio'r hen ffurflen.

**Ian Johnston**
**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)**

## Ein taith tuag at fod yn Ganolfan Rhagoriaeth

Rydym yn newid sut ydym yn gwneud pethau i wneud ein gwasanaethau yn fwy syml a hygyrch i bawb.

Rydym yn datblygu systemau digidol newydd i wneud taith ein cwsmeriaid yn haws a'n hamserau gweithdroad yn gynt. Mae hyn wedi ei ysgogi gan ein Cynllun Strategol ac awydd i fod yn Ganolfan rhagoriaethLlywodraeth Prydain ar gyfer gwybodaeth addasrwydd.

Rydym am i'r system newydd hybu'n gwaith i ddiogelu'r cyhoedd ac i roi gwell mynediad i'r rhai sy'n cyfeirio achosion gwahardd atom a'r rhai sy'n gwneud ceisiadau datgeliad.

Mae hyn yn brosiect mawr oherwydd y swm aruthrol o geisiadau y byddwn yn delio â nhw a'r safonau uchel iawn a fynnwn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda heddluoedd ledled y wlad a nifer o Gyrff Cysgodol a Chofrestredig i brosesu tua phedair miliwn o geisiadau datgeliad yn flynyddol. Mae nifer o sefydliadau hefyd yn gwneud atgyfeiriadau diogelu neu'n rhannu gwybodaeth achosion

gwahardd gyda ni. Rydym wir yn gwerthfawrogi mewnbwn ein partneriaid i'n helpu i ddiogelu'r cyhoedd trwy ddarparu gwybodaeth o ansawdd, amserol a chywir.

Mae rhai ohonoch eisoes wedi dangos cryn ddiddordeb yn ein rhaglen ddigideiddio. Rydym nawr yn barod i'ch holi am sut all ein system ddigidol newydd helpu a sut, gyda'n gilydd, y gallwn ei integreiddio i'ch prosesau a systemau.

## Beth ydyn ni'n wneud – a beth yw'r manteision?

Mae Release 1 (R1) yn brosiect TG sylweddol fydd yn ein galluogi i weithredu mewn amgylchedd heb bapur ac i fod yn ddigidol yn ddiofyn o ran sut ydym yn gweithio. Bydd unigolion yn gallu ymgeisio ar-lein am wiriadau DBS trwy borth gwe newydd, hawdd i'w defnyddio. Byddant yn gallu defnyddio gwe-sgwrsio os ydynt angen cymorth a gallant dderbyn negeseuon testun ynglŷn â hynt eu ceisiadau.

Bydd atgyfeiriadau gwahardd hefyd ar gael ar-lein a bydd pobl sydd wedi eu cyfeirio yn gallu gwirio cynnydd eu hachos neu gyflwyno sylwadau trwy'r we. Bydd cyfeirwyr yn ymgysylltu â ni mewn amgylchedd digidol sydd wedi gwella'n sylweddol. Bydd hefyd yn canoli ein rhyngweithio gyda ein partneriaid heddlu i un system ac yn darparu gwybodaeth mewn amgylchedd digidol amserol, wedi ei hysgogi gan ansawdd.

Rydym hefyd yn delio â nifer o ddiffygion effeithlonrwydd seiliedig ar broses trwy'r prosiect felly byddwn yn gallu prosesu ceisiadau yn llawer cynt, gan ddarparu gwybodaeth ar gynnydd ar y ffordd.

Mae gennym nifer o Gyrff Cysgodol a Chofrestredig gwerthfawr ac rydym yn awyddus iawn i ddal i weithio'n effeithiol gyda nhw ac i sicrhau eu bod, ynghyd â'n partneriaid a rhanddeiliaid, yn cael y gorau o'n hamgylchedd digidol newydd. Byddant yn dal i fod yn gyfrifol am gydlofnodi ceisiadau a gwirio hunaniaeth yn dilyn lansio ein system newydd.

Yn fuan iawn byddwn yn gofyn i rai ohonoch roi adborth ar ymarferoldeb a gwedd y system newydd. Mae yna rai elfennau o'r prosiect na fyddwch yn gallu dylanwadu arnynt, a nifer o ryngweithiadau technegol sydd angen eu cadarnhau, ond rydym wedi rhychwantu'r system i fodloni anghenion ein gweithrediadau a rhai ein partneriaid, i wneud y cynnyrch terfynol mor ymarferol â phosibl.

Mae llawer o'r gwaith eisoes wedi ei gyflawni, ond mae dipyn i'w wneud o hyd, felly dyma'r amser i chi gymryd rhan. Bydd sawl cyfle i ymgysylltu â ni ynglŷn â'r prosiect wrth i ni ddechrau siarad gyda chi am integreiddio a chyflwyno.

Bydd cerrig milltir yn cynnwys profion defnyddwyr a phryd a gwedd. Byddwn hefyd angen mwy o ddealltwriaeth o'ch gofynion a pharodrwydd yn y cyfnod hyd at y Nadolig, a phrofion hygyrchedd defnyddwyr tua mis Chwefror. Bydd hyn ynghyd â thrafodaethau parhaus am integreiddiad technegol a newid busnes trwy gydol y prosiect. Rydym yn bwriadu lansio tua diwedd y gwanwyn ar gyfer ein gwasanaethau Gwahardd a diwedd yr haf ar gyfer Datgeliad.

Byddwch yn dal i allu cyflwyno ceisiadau datgeliad ar ffurflenni papur a thrwy'r ffrwd e-Swmp pan fydd yn fyw flwyddyn nesaf, fodd bynnag, bydd rhaid i ni wneud rhai newidiadau. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am hyn i chi yn fuan.

Fe wyddom y byddwch yn awyddus i gael mwy o wybodaeth, ond nid oes gennym yr holl atebion ar hyn o bryd. Bydd pethau'n gliriach wrth i'r prosiect symud ymlaen- ond rydym yn ymroddedig i weithio gyda chi i wneud ein proses yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Nid yw hyn yn ymwneud â newid beth ydym yn wneud gyda'n gilydd, ond sut ydym yn gwneud hyn gyda chi. Byddwn yn dal i'ch darparu â diweddariadau rheolaidd felly chwiliwch am ragor o fanylion yn fuan ar sut, ble a phryd allwch chi gymryd rhan.

## Gwneud i'n gwasanaeth weithio i chi

Fe wyddom bod mwy ohonoch nawr yn defnyddio ein gwefan i hunan wasanaethu ac ateb eich ymholiadau'ch hun – sydd gobeithio yn arbed amser i chi.

Mae'n ddefnyddiol iawn i wybod ym mha faes ddylech chi fod yn edrych, felly i'ch atgoffa, ac i wneud dod o hyd i'r hyn rydych yn chwilio amdano ychydig yn haws, dyma rai o'n dolenni mwyaf poblogaidd:

- Olrhain eich cais ar-lein
- Tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru neu ddysgu mwy am y gwasanaeth
- Adnewyddu eich tanysgrifiad i'r Gwasanaeth Diweddaru
- Canllawiau gwirio hunaniaeth
- Canfod a ydych yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS
- Cyfeirio rhywun at y DBS

Os oes rhaid i chi gysylltu â ni, mae'n ddefnyddiol i wybod pa opsiwn ffôn fydd yn eich galluogi i gyrraedd y gwasanaeth rydych ei angen yn gyflym:

Os oes rhaid i chi gysylltu â ni, mae'n ddefnyddiol i wybod pa opsiwn ffôn fydd yn eich galluogi i gyrraedd y gwasanaeth rydych ei angen yn gyflym:

- Gwasgwch 1 os yw'ch ymholiad yn ymwneud ag ymgeisio am wiriad DBS
- Gwasgwch 2 os yw'ch ymholiad yn ymwneud â chais sydd yn yr arfaeth
- Gwasgwch 3 os yw'ch ymholiad yn ymwneud â'r Gwasanaeth Diweddaru
- Gwasgwch 4 os yw'ch ymholiad yn ymwneud â thystysgrif DBS sydd wedi ei chyhoeddi, ond nad ydych wedi ei derbyn eto
- Gwasgwch 5 os yw'ch ymholiad yn ymwneud â thystysgrif DBS sydd wedi ei derbyn
- Gwasgwch 6 os ydych chi'n ffonio i archebu ffurflenni neu os ydych yn Gorff Cofrestredig sy'n ymholi am daliad

## Ymgyrch FALCON yn sicrhau erlyniad cyntaf

Diolch i ymdrech aruthrol gan ein tîm Twyll, Datgeliad ac Ymchwilio, dedfrydwyd mewnfudwr anghyfreithiol oedd wedi bod yn gweithio am bron i flwyddyn mewn cartref i'r henoed, ble roedd y preswylwyr angen gofal arbenigol, i bedwar mis o garchar.

Bydd y gweithiwr hefyd yn cael ei alltudio i Nigeria wedi cael ei gyhuddo o dri chyfrif o dwyll.

Roedd y gollfarn y cyntaf i'r Ymgyrch FALCON (Twyll a Throseddau Cysylltiedig Ar-lein), menter newydd gan yr Heddlu Metropolitan sy'n ceisio lleihau'r niwed a choswyd gan dwyll a throseddwyr seiber trwy ddarparu ymateb effeithiol, gwasanaeth arbennig ac ataliad rhagweithiol.

Dywedodd DS Suzanne Grimmer o'r Met: "Roedd hyn yn arést oedd angen ei wneud cyn gynted â phosibl gan fod yr unigolyn yn dal i weithio yn y gymuned ofal -  a chafwyd canlyniad arbennig."

Meddai Angie Geraghty, Rheolwr Ymchwilio DBS: "Mae'n gryn gamp i ni fod y DBS wedi cyflawni erlyniad cyntaf FALCON. I ddathlu'r canlyniad gwych hwn, fe fynychais lansiad swyddogol FALCON yn Llundain ar ddechrau mis Hydref."

Yn y lansiad cafwyd anerchiadau gan y prif siaradwyr Syr Bernard Hogan Howe, Comisiynydd yr MPS, Stephen Greenhalgh, Dirprwy Faer Plismona a Throseddu, a DS Jayne Snelgrove, Ymgyrch FALCON.

Meddai Syr Bernard: "Mae FALCON yn cynnig dull gyda mwy o ffocws a chydweithio rhwng y Met, y diwydiant busnes ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill i sicrhau ein bod yn diogelu'r cyhoedd ac yn arestio'r drwgweithredwyr. Byddwn yn fwy pwerus os bydd y tri ohonom yn gallu cydweithio – yr heddlu, y cyhoedd a busnesau."

## Ffarwelio â'r hen drefn, croesawu'r newydd

Noder, o 1 Rhagfyr 2014, ni fyddwn bellach yn derbyn ceisiadau yn defnyddio'r hen ffurflen. Bydd unrhyw geisiadau a gyflwynir yn defnyddio'r hen ffurflenni wedi'r dyddiad hwn yn cael eu gwrthod.

Rydym wedi bod yn anfon cyflenwad newydd o ffurflenni cais at bob Corff Cofrestredig sy'n defnyddio'r llwybr cais papur. Byddwn wedi cwblhau hyn erbyn diwedd Hydref.

Dechreuwch ddefnyddio'r ffurflenni newydd ar unwaith a dinistrio'ch cyflenwad o hen rai. Gallwch ddarllen mwy am pam ydyn ni'n gwneud yn rhifyn Awst o Newyddion Datgeliad y DBS *('Ymarfer adnewyddu ffurflenni newydd ar waith').*